OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 851 (Cy.76)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*31 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Mawrth 2009*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer eu pwerau fel yr awdurdod priodol o dan adran 303 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 303(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso.

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2009.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1989" ("*the 1989 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Cynydd cyffredinol mewn ffioedd

2.—(1) Diwygir Rheoliadau 1989, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn.

(**1**) 1990 p.8; diwygiwyd adran 303 gan baragraff 10 o Atodlen 13 i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43), adran 6(6) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 (p.34) ac adran 53 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5). *Gweler*O.S. 2004/2097 (C.89) ac, o ran Cymru, 2006/931 (C.26). *Gweler* hefyd adran 303(2A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Deddf 1990) am ystyr "appropriate authority" ac adran 336(1) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "prescribed". Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p.32), mae pwerau adran 303 o Ddeddf 1990 bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 303(5) at gymeradwyaeth gan ddau Dŷ'r Senedd yn cael effaith o ran arfer swyddogaethau gan Weinidogion Cymru fel pe bai yn gyfeiriad at gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 33 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) O.S. 1989/193 a ddiwygiwyd, o ran Cymru a Lloegr, gan O.S. 1990/2743, 1991/2735, 1992/1817, 1992/3052, 1993/3170 ac 1997/37 ac, o ran Cymru, gan O.S. 2002/1876 (W.185), 2002/2258 (W.222), 2004/2736 (W.243) a 2006/948 (W.97).

(2) Yn rheoliad 10A o Reoliadau 1989—

(a) ym mharagraff (5)(b), yn lle "£144 until 31 March 2007, increasing thereafter to £159" rhodder "£166"; a

(b) yn lle paragraff (6), rhodder—

"Where a use specified in an application under section 191(1)(a) is use as one or more dwellinghouses, the fee payable in respect of that use will be—

(a) where the use so specified is use as 50 or fewer dwellinghouses, £330 for each dwellinghouse;

(b) where the use so specified is use as more than 50 dwellinghouses, £16,464; and an additional £84 for each dwellinghouse in excess of 50, subject to a maximum in total of £250,000.".

(3) Yn rheoliad 11A(1) o Reoliadau 1989—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£54 until 31 March 2007, increasing thereafter to £59" rhodder "£61"; a

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "£288 until 31 March 2007, increasing thereafter to £316" rhodder "£330".

(4) Yn Rhan I o Atodlen 1 i Reoliadau 1989—

(a) ym mharagraffau 4(1) a 6(2), yn lle "£288 until 31 March 2007, increasing thereafter to £316" rhodder "£330"; a

(b) ym mharagraffau 7, 7A a 7B, yn lle "£144 until 31 March 2007, increasing thereafter to £159" rhodder "£166"; ac

(c) yn lle paragraff 15(2),rhodder—

"Where an application is for outline planning permission and relates to development which is within more than one of the categories specified in that table, the fee payable in respect of the application will be—

(a) where the site area does not exceed 2.5 hectares, £330 for each 0.1 hectare of the site area;

(b) where the site area exceeds 2.5 hectares, £8232, and an additional £84 for each 0.1 hectare in excess of 2.5 hectares, subject to a maximum in total of £125,000.".

(5) Yn lle Rhan II o Atodlen 1 i Reoliadau 1989 (graddfa ffioedd), rhodder y Rhan II newydd a welir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(6) Yn lle Atodlen 2 i Reoliadau 1989 (graddfa ffioedd ceisiadau hysbysebu), rhodder yr Atodlen 2 newydd a welir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

Dirymu

3. Caiff Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2006(**4**) eu dirymu.

(**4**) O.S. 2006/948 (Cy.97).

Jane Davidson
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,
31 Mawrth 2009 Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Rheoliad 2(5)

RHAN II O ATODLEN 1 I REOLIADAU 1989

"Part II

SCALE OF FEES IN RESPECT OF APPLICATIONS MADE OR DEEMED TO BE MADE ON OR AFTER 6 APRIL 2009.

Category of development	*Fee payable*
1. *Operations*	
1. The erection of dwellinghouses (other than development within category 6 below)	(a) where the application is for outline planning permission and— (i) the site area does not exceed 2.5 hectares, £330 for each 0.1 hectare of the site area, (ii) the site area exceeds 2.5 hectares, £8,232 and an additional £84 for each 0.1 hectare in excess of 2.5 hectares, subject to a maximum in total of £125,000; (b) in other cases— (i) where the number of dwellinghouses to be created by the development is 50 or fewer, £330 for each dwellinghouse, (ii) where the number of dwellinghouses to be created by the development exceeds 50, £16,464 and an additional £84 for each dwellinghouse in excess of 50 dwellinghouses, subject to a maximum in total of £250,000.
2. The erection of buildings (other than buildings in categories 1,3,4,5 or 7).	(a) where the application is for outline planning permission and— (i) the site area does not exceed 2.5 hectares, £330 for each 0.1 hectare of the site area,